**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

18 Mai 2022

Annwyl Weinidog,

Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr

Diolch am eich llythyr, ar 5 Ebrill 2022, mewn perthynas â'r Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr.

Mae'n bleser gennyf atodi copi o adroddiad y Pwyllgor, sef Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1: Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr, wedi'i osod gerbron y Senedd heddiw.

Gobeithio y bydd modd i chi dderbyn ein hargymhellion a mynd ar drywydd y newidiadau angenrheidiol gyda'ch Gweinidogion cyfatebol yn llywodraethau eraill y DU cyn cwblhau'r Fframweithiau.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Fframweithiau cyffredin – Adroddiad 1

Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr

## 1. Cefndir

**1.** Yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i greu dulliau cyffredin o weithredu drwy'r DU gyfan - neu 'Fframweithiau Cyffredin' (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'Fframweithiau') - mewn meysydd polisi a oedd yn cael eu llywodraethu gynt gan gyfraith yr UE, ond sydd o fewn cymhwysedd y llywodraethau neu'r deddfwrfeydd datganoledig.

**2.** Unwaith y bydd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cymeradwyo'r Fframweithiau dros dro, cânt eu rhannu â'r pwyllgorau perthnasol at ddibenion craffu. Yn dilyn y gwaith craffu, bydd y Fframweithiau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru, a bydd y DU a'r llywodraethau datganoledig yn eu cymeradwyo'n derfynol.

**3.** Ers i'r cyfnod pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau wedi bod ar waith dros dro drwy'r DU ar lefel swyddogol.

### Ein dull ni o weithredu

**4.** Ym mis Ionawr 2022, cytunodd y Pwyllgor sut y byddai'n craffu ar y Fframweithiau sy'n rhan o'i gylch gwaith. Ar sail dadansoddiad cychwynnol o grynodebau'r Fframweithiau a datblygiadau polisi parhaus, dewisodd y Pwyllgor roi blaenoriaeth i'r fframweithiau dros dro a ganlyn: Ansawdd Aer, Cemegion a Phlaladdwyr, Adnoddau a Gwastraff, System Masnachu Allyriadau'r DU.

**5.** Yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2022, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') am y Fframweithiau dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, ac ar gyfer Cemegion a Phlaladdwyr. Yna, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad ar nifer o faterion. Mae'r ohebiaeth hon i'w gweld ar wefan Senedd Cymru..

**6.** Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y Fframweithiau dros dro ar gyfer Adnoddau a Gwastraff nac ar gyfer System Masnachu Allyriadau'r DU wedi'u cyhoeddi.

# 2. Datblygu'r fframweithiau

**7.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod y Gweinidog, a'i swyddogion, o'r farn bod y profiad o ddatblygu'r Fframweithiau'n rhynglywodraethol wedi bod yn gadarnhaol. Yn benodol, rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn dweud bod y Fframweithiau wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran dod â swyddogion polisi o'r pedair llywodraeth ynghyd i drafod meysydd na chawsant eu trafod fawr ddim cynt ac, mewn rhai achosion, llwyddwyd i wella cysylltiadau rhynglywodraethol yn arw. Gobeithio y bydd hyn yn parhau tra bydd y Fframweithiau ar waith.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**8.** Wrth roi tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog fod adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob un o'r pedair gwlad. Rhoddodd enghreifftiau o randdeiliaid yng Nghymru yr ymgynghorwyd â nhw wrth ddatblygu'r Fframweithiau.

**9.** Pan ofynnwyd iddi pam nad oedd crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi i hybu tryloywder, dywedodd y Gweinidog fod y rhanddeiliaid wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol. Byddai'n rhaid i'r pedair llywodraeth gytuno i ryddhau unrhyw ddata a byddai'n rhaid cael caniatâd yr ymatebwyr hefyd.  Nid yw'n glir pam y gwnaed y penderfyniad i gynnal yr ymarferion ymgysylltu hyn yn gyfrinachol.

## Materion drafftio

**10.** Rydym yn cydnabod bod y Fframweithiau'n gytundebau rhynglywodraethol a ysgrifennwyd ar gyfer ymarferwyr polisi a'u bod, o reidrwydd, yn dechnegol mewn mannau. O ganlyniad, nid yw'n hawdd i gynulleidfa ehangach eu darllen. Mae rhannau o'r Fframweithiau'n anodd eu dilyn ac nid ydynt yn eglur iawn. Nid yw hyn yn hybu tryloywder nac yn helpu cynulleidfaoedd ehangach i ddeall sut y gwneir penderfyniadau ym maes polisi a chyfreithiau a

all effeithio arnynt yn y dyfodol.  Hoffem i'r Gweinidog wneud pob ymdrech i sicrhau bod y Fframweithiau'n haws eu deall cyn iddynt gael eu cwblhau.

**11.** Nodwn nad yw rhannau o'r Fframwaith Ansawdd Aer wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r trefniadau rhwng y DU a'r UE y cytunwyd arnynt ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at y risg sydd ynghwm wrth  adael yr UE heb gytundeb, a'r ffaith y bydd angen ei ddiweddaru i adlewyrchu trefniadau yn y dyfodol, os cytunir arnynt, ac at ddiwedd y cyfnod pontio fel dyddiad yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, bydd angen diweddaru'r ddau Fframwaith i adlewyrchu canlyniad yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol. Hyderwn y caiff y Fframweithiau eu diweddaru cyn eu  cwblhau.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r sail resymegol dros ymgynghori â rhanddeiliaid yn gyfrinachol wrth ddatblygu'r Fframweithiau.  Dylai hefyd egluro i ba raddau y mae hyn yn arfer cyffredin yn Llywodraeth Cymru.

# 3. Effaith y Fframweithiau ar bolisi a chyfreithiau Cymru yn y dyfodol

**12.** Wrth roi tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog nad yw'r Fframweithiau'n effeithio ar gynlluniau na chymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog nad ydynt yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi neu gyfreithiau ar wahân i Gymru ac y bydd yn dal yn bosibl i'r pedair gwlad ymwahanu.

**13.** Er y gallai hynny fod yn wir, mae'r Fframweithiau'n rhan o drefniadau cyfansoddiadol y DU ar ôl Brexit ac yn caniatáu i'r pedair llywodraeth wneud penderfyniadau ar y cyd. Os bydd anghytundeb, gall anghydfod godi a allai, yn ymarferol, gyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru a'r Senedd arfer pwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru, a'r modd y gall rhanddeiliaid Cymru ddylanwadu ar y broses ddeddfu.

**14.** Nid yw effeithiolrwydd y Fframweithiau wedi'i roi ar brawf eto. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl gwybod i ba raddau y bydd llywodraethau am ymwahanu yn y dyfodol na faint o ymwahanu fydd yn dderbyniol i bob un o'r pedair llywodraeth. Nid yw ychwaith yn bosibl gwybod pa mor llwyddiannus fydd y Fframweithiau o ran rheoli ymwahanu neu o ran datrys anghytundeb ac anghydfod yn amserol. Rydym yn bwriadu cadw llygad ar y materion hyn yn ystod y Senedd hon, ar sail yr adroddiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w paratoi ar weithrediad y Fframweithiau (gweler paragraff 29).

## Cwmpas y fframweithiau

**15.** Mae egwyddorion y fframweithiau cyffredin yn nodi y dylent gynnal hyblygrwydd cyfatebol, o leiaf, ar gyfer teilwra polisïau'n ôl anghenion penodol pob tiriogaeth, fel y mae rheolau cyfredol yr UE yn ei ganiatáu. Yn ei gohebiaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

> *"nid yw polisïau a deddfau domestig nad ydynt yn newid cyfraith berthnasol yr UE a gadwyd o fewn cwmpas y Fframweithiau Cyffredin hyn. Pe credid y gallai datblygiad polisi yng Nghymru effeithio ar y gwledydd eraill, yna byddai'n cael ei drafod drwy'r Fframwaith. Felly hefyd ddatblygiad polisi gan un o'r gwledydd eraill."*

**16.** Nid yw hyn yn glir yn y Fframweithiau, fodd bynnag.

## Datblygiadau Seneddol

**17.** Yn ei llythyr, cyfeiriodd y Gweinidog at benderfyniadau sydd o ddiddordeb i fwy nag un wlad gan ddweud "gwneir penderfyniadau o'r fath ar y cyd ond gan barchu rhyddid deddfwriaethol a gweithredol pob un o'r Llywodraethau lle ceir y rhyddid hwnnw." Mae hyn yn cyfeirio at benderfyniadau a wneir gan lywodraethau, ond yn anwybyddu'r ffaith bod penderfyniadau hefyd yn cael eu gwneud gan seneddau, er enghraifft, drwy ddiwygio Biliau. Yn achos Bil Aer Glân (Cymru), er enghraifft, gallai'r Senedd gytuno ar welliannau sy'n effeithio ar "faterion sydd o ddiddordeb i fwy nag un wlad". Nid yw'n glir a yw penderfyniadau gan un senedd yn cael blaenoriaeth dros benderfyniadau rhynglywodraethol, neu sut mae'r Fframweithiau'n ymdrin â phenderfyniadau seneddol anghyson ynghylch "materion sydd o ddiddordeb i fwy nag un wlad".

## Bil Aer Glân (Cymru)

**18.** Wrth graffu ar waith y Gweinidog, gofynnwyd sut y bydd y Fframwaith Ansawdd Aer yn effeithio ar Fil Aer Glân arfaethedig Llywodraeth Cymru ('y Bil'). Esboniodd y Gweinidog fod y ddarpariaeth yn y Bil sy'n ymwneud â thargedau ansawdd aer yn dod o fewn cwmpas y Fframwaith. Ychwanegodd, " Fodd bynnag, mae'r pŵer i bennu targedau o fewn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru ac o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru". Sicrhawyd y Pwyllgor na fydd y Fframwaith "yn cael effaith gyfyngol ar gynnwys y Bil Aer Glân" ac na fydd yn effeithio ar ba bryd y caiff y Bil ei gyflwyno.

**19.** Ym mis Chwefror 2022, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn bwriadu cyflwyno'r Bil erbyn haf 2023 fan bellaf. Rydym yn dal yn anniddig ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno'r Bil. Sylwn nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn ar y Bil eto.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd penderfyniadau rhynglywodraethol a wneir o dan y Fframweithiau yn effeithio ar allu'r Senedd i ddylanwadu ar bolisi a chyfreithiau Cymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i egluro cwmpas y Fframweithiau. Dylai'r Fframweithiau nodi'n gliriach mai dim ond newidiadau i gyfreithiau a pholisïau mewn meysydd y byddai'r UE yn penderfynu arnynt gynt fydd yn rhwym wrth ofynion y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd a'r broses datrys anghydfod.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r broses a fydd yn cael ei defnyddio, ac effaith bosibl unrhyw benderfyniad gan y Senedd a fydd yn gwrthdaro â phenderfyniadau rhynglywodraethol a wneir o dan y Fframweithiau. Dylai hefyd egluro sut y mae'r Fframweithiau'n ymdrin â phenderfyniadau seneddol sy'n gwrthdaro â'i gilydd ynghylch "materion sydd o ddiddordeb i fwy nag un wlad".

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei bod yn bwriadu cyflwyno'r Bil Aer Glân (Cymru) erbyn haf 2023 fan bellaf. Dylai hefyd ymrwymo i gyhoeddi'r crynodeb o ymatebion i'r Papur Gwyn ar y Bil cyn gynted â phosibl, ac erbyn diwedd tymor yr haf eleni fan bellaf.

# 4. Gweithrediad parhaus y Fframweithiau

## Rhagolygon ar gyfer ymwahanu yn y dyfodol

**20.** Ar 31 Ionawr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i'w gwneud yn haws diwygio neu ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir. Mae hyn yn creu pryderon posibl ynghylch uchelgais Llywodraeth Cymru i gynnal neu ragori ar y safonau presennol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddefnyddio proses y fframweithiau cyffredin i gyflwyno newidiadau o'r fath.

**21.** Wrth roi tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog na allai cynlluniau Llywodraeth y DU arwain at "goelcerth o reoliadau" yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac y byddai'r Fframwaith yn dal i fodoli pe bai hynny'n digwydd yn Lloegr. Er ein bod yn falch o glywed hynny, rydym yn dal i bryderu am effaith bosibl unrhyw gamau o'r fath ar bolisi a deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol, a'r perygl i anghytundeb godi rhwng llywodraethau, fel yr amlinellodd y Gweinidog.

## Datrys anghydfod

**22.** Mae'r fframweithiau'n cynnwys proses ar gyfer datrys anghytundeb ac anghydfod rhwng y pedair llywodraeth. Os na ellir datrys anghydfod ar lefel swyddogol, gellir ei uwchgyfeirio nes

bydd yn cyrraedd lefel Weinidogol. Mae'r Fframweithiau'n darparu ar gyfer uwchgyfeirio anghydfod Gweinidogol at strwythurau rhynglywodraethol pan fydd popeth arall wedi methu.

**23.** Wrth roi tystiolaeth, esboniodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i anghydfod atal gweithgareddau'r llywodraeth sy'n achosi'r anghydfod tra bod y mater yn cael ei ddatrys. Yn ei llythyr, ychwanegodd y Gweinidog, "gellir defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfodau os bydd llywodraeth yn credu bod polisi llywodraeth arall yn niweidiol e.e. ddim yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol neu'n cael effeithiau niweidiol sylweddol mewn gwledydd eraill"

**24.** O dan rai amgylchiadau, mae'r Fframweithiau'n caniatáu i lywodraethau "gytuno i anghytuno" oni bai bod hynny'n arwain at aflonyddwch, yn cael effaith andwyol neu niweidiol ar y gallu i fodloni egwyddorion y Fframwaith. Gellir hefyd uwchgyfeirio safbwyntiau eraill ar y mater at y broses datrys anghydfod.

**25.** Rydym yn pryderu y gallai effaith gyfunol hyn arwain, o bosibl, at oedi cyn cyflwyno polisi a deddfwriaeth yng Nghymru.

**26.** Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi gwybod i'r Senedd am unrhyw anghydfod a fydd yn codi o dan y fframwaith. Pan ofynnwyd iddi egluro pryd a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor/Senedd am unrhyw anghydfod, dywedodd y Gweinidog wrthym fod "y mecanwaith adrodd ar ôl cwblhau wedi'i ddyfeisio ar gyfer y fframweithiau, sy'n cynnwys trefn adrodd am unrhyw anghydfodau sy'n codi o dan y fframwaith". Mae'r union drefniadau ar gyfer rhoi gwybod am anghydfod yn parhau i fod yn aneglur.

**27.** Rydym yn disgwyl i'r Senedd gael gwybod am unrhyw anghydfod a gaiff ei uwchgyfeirio at Weinidog, o leiaf. Dylai gael gwybod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl uwchgyfeirio'r anghydfod. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Senedd gael gwybod am ganlyniad unrhyw anghydfod o'r fath.

## Adroddiadau i'r seneddau

**28.** Ers dechrau rhaglen y Fframweithiau Cyffredin, rhoddwyd cryn bwyslais ar bwysigrwydd craffu ar y gwaith o ddatblygu'r Fframweithiau. Credwn fod craffu seneddol ar weithrediad parhaus y Fframweithiau yr un mor bwysig. Rydym yn siomedig, felly, nad yw'r Fframweithiau'n ystyried hyn. Nid oes unrhyw gyfeiriad at ymgysylltiad seneddol parhaus ac nid oes unrhyw system i hybu'r gwaith o graffu ar y Fframweithiau unwaith y byddant yn gwbl weithredol.

**29.** Er gwaethaf yr uchod, nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd ar weithrediad parhaus y Fframweithiau. Mae'r datblygiad hwn

i'w groesawu. Rydym hefyd yn nodi bod y pedair llywodraeth yn ystyried y ffordd orau o adrodd ar weithrediad pob fframwaith, ond nid ydym yn ymwybodol eu bod wedi llwyddo i gytuno ar hyn.

## Rôl seneddwyr yn y broses o adolygu'r Fframweithiau

**30.** Mae'r ddau fframwaith yn cynnwys prosesau ar gyfer adolygu a diwygio'r Fframweithiau (sef y Mecanwaith Adolygu a Diwygio). Maent yn darparu ar gyfer adolygiad rheolaidd bob tair blynedd, neu'n gynt os bydd 'mater o bwys' yn codi. Nid ydynt yn cyfeirio at rôl seneddau yn y broses adolygu.

**31.** Roedd tystiolaeth y Gweinidog a'r Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn fodlon rhoi rôl ymarferol i'r Senedd yn y broses o adolygu'r Fframweithiau. Sylwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi gwybod i'r Senedd am y pwyntiau adolygu ac i ystyried argymhellion y Senedd cyn i'r broses adolygu ddod i ben. Rydym yn croesawu hyn. Nid ydym yn ymwybodol o ymrwymiadau tebyg gan lywodraethau eraill y DU i'w deddfwrfeydd perthnasol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod yr adroddiadau blynyddol i'r Senedd ar weithrediad parhaus y Fframweithiau'n cynnwys y canlynol o leiaf:

- unrhyw newidiadau neu newidiadau arfaethedig mewn polisi neu gyfraith a wneir o fewn y maes polisi y mae'r Fframwaith yn ymwneud ag ef;
- asesu a oes unrhyw ymwahanu ac a oes unrhyw effaith ar y maes polisi y mae'r Fframwaith yn ymwneud ag ef;
- asesu a yw'r Fframweithiau wedi gosod cyfyngiadau, gan gynnwys cyfyngiadau ymarferol, ar arfer cymhwysedd datganoledig yn y maes polisi y mae'r Fframwaith yn ymwneud ag ef;
- asesu i ba raddau y cydymffurfir yn barhaus â rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys rhwng y DU a'r UE; a
- asesu'r effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar ddeddfwriaeth Cymru ym meysydd y Fframwaith.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurhad pellach o'r amgylchiadau pan fyddai polisi'n cael ei ystyried yn "niweidiol".

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i roi gwybod yn ffurfiol i seneddau'r DU am unrhyw anghydfod a gaiff ei uwchgyfeirio at Weinidog, ac am ganlyniadau pob anghydfod. Dylid diwygio'r Fframweithiau i adlewyrchu hyn. Yn achos y Senedd, dylid rhoi'r wybodaeth berthnasol iddi drwy gyfrwng Datganiadau Ysgrifenedig.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd yn gosod adroddiadau blynyddol ar weithrediad parhaus y Fframweithiau gerbron y Senedd.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol ynghylch rôl, sydd wedi'i diffinio'n glir, i seneddau'r DU yn y broses o adolygu'r Fframweithiau. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad i:

- roi gwybod i seneddau am y pwyntiau adolygu;
- geisio barn seneddau am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Fframweithiau;
- ystyried argymhellion seneddau cyn y daw'r broses adolygu i ben; a
- rhoi gwybod i seneddau am ganlyniadau'r adolygiadau.

Dylid diwygio'r Fframweithiau i adlewyrchu'r ymrwymiadau hyn.

# 5. Cyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid

**32.** Mae'r Fframweithiau'n cyfeirio rhywfaint at gyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid allanol. Mae'r ddau fframwaith yn nodi bod angen i lywodraethau'r DU ymrwymo i gyflwyno negeseuon amserol a chyson i randdeiliaid drwy ddefnyddio'r dulliau ymgysylltu presennol. Fodd bynnag, nid ydynt yn dangos pryd na sut y bydd rhanddeiliaid yn bwydo i'r broses o wneud penderfyniadau a nodir yn y Fframwaith.

**33.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog yr "ymgynghorir â rhanddeiliaid ar ddatblygiadau polisi yn y ffordd arferol". Er hyn, rydym yn pryderu bod perygl y gallai'r Fframweithiau ei gwneud yn anoddach i randdeiliaid ddylanwadu er gwell ar ddatblygu polisi a chyfraith yn y meysydd y mae'r Fframweithiau hyn yn ymdrin â nhw. Rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog yn y cyswllt hwn.

**34.** Yn ei llythyr, dywedodd y Gweinidog "Roedd llawer o'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid ar y Fframwaith Cemegion a Phlaladdwyr dros dro yn y rownd ymgysylltu cychwynnol yn ymwneud yn benodol â pholisi yn hytrach na fframwaith." Byddai'n ddefnyddiol gwybod sut y bydd yr adborth hwnnw'n dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**35.** O ystyried y pryderon a amlinellir uchod, credwn ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid yn gallu bwydo i'r broses o adolygu'r Fframweithiau. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi gwybod i randdeiliaid am y pwyntiau adolygu ac am unrhyw argymhellion a wneir gan y Senedd yn ystod y broses adolygu. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ystyrlon â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses adolygu i'w galluogi i ddylanwadu ar ganlyniad yr adolygiadau.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ymhellach pryd a sut y bydd rhanddeiliaid yn bwydo i'r broses gwneud penderfyniadau a nodir yn y Fframwaith. Dylai hefyd esbonio sut y bydd yn sicrhau na fydd y Fframweithiau'n cyfyngu ar rôl rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu polisi a chyfraith yn y meysydd y mae'r Fframweithiau hynny'n ymdrin â nhw.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a fydd yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid ar faterion yn ymwneud â pholisi cemegion a phlaladdwyr wrth ddatblygu'r Fframwaith yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ymgynghori'n ystyrlon â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses adolygu. Dylai hefyd geisio cytundeb i gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r holl ymgynghoriadau ac i sicrhau y bydd ar gael i'r cyhoedd ei weld, er mwyn hybu tryloywder. Dylid diwygio'r Fframweithiau i adlewyrchu hyn.

# 6. Safonau rheoleiddio: cemegion a phlaladdwyr

**36.** Wrth wneud sylw ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal safonau'r UE ar gemegau, dywedodd y Gweinidog, "[ei] nod yw i UK REACH ddod i ddarparu lefel amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd yng Nghymru fydd cyn gadarned â REACH yr UE pan oeddem yn aelod-wladwriaeth, cyn gynted â phosibl." Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn "benderfynol y dylai REACH y DU gyflawni ei nod craidd", ond "bydd angen amser i sicrhau bod deddfwriaeth a etifeddwyd gennym yn gwbl addas i'r diben yng nghyd-destun Prydain Fawr".

**37.** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n adolygu REACH yr UE fel rhan o'i Strategaeth Cemegion ar gyfer Cynaliadwyedd <https://ec.europa.eu/environment/strategy/chemicals-strategy_en> ac, yn ddiweddar, mae wedi cyhoeddi dogfen sy'n dwyn y teitl Restrictions Roadmap <https://ec.europa.eu/docsroom/documents/49734>, sy'n nodi'r cyfyngiadau arfaethedig. Pan ofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymryd yr un camau, dywedodd y Gweinidog eu bod yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill o dan y Fframwaith Cyffredin i flaenoriaethu newidiadau i wella REACH y DU, gan ganolbwyntio ar y meysydd y mae

angen rhoi’r sylw mwyaf iddynt yng nghyd-destun Prydain Fawr yn dilyn y penderfyniad i adael yr UE.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro’r canlynol:

- y risg sy’n gysylltiedig â chael deddfwriaeth REACH y DU nad yw eto’n “hollol addas i’r diben yng nghyd-destun Prydain Fawr” a hefyd
- yr amserlenni mae’r llywodraethau’n gweithio tuag atynt i roi deddfwriaeth REACH y DU sy’n “gwbl addas i'r diben” ar waith.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ynghylch unrhyw faterion sy’n dod i’r amlwg ar ôl creu REACH y DU, yn enwedig mewn perthynas â’i effaith ar gynhyrchwyr a busnesau yng Nghymru.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion unrhyw waith y mae llywodraethau’n ymgymryd ag ef, neu’n bwriadu ymgymryd ag ef, i benderfynu sut y bydd newidiadau i REACH yn effeithio ar y DU.